Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Ruth Stanier
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth Cwsmeriaid a Dylunio Trethi
Cyllid a Thollau EM

2 Chwefror 2021

Annwyl Ruth,

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gweithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei adroddiad ar weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol. Mae'r Pwyllgor yn diolch i chi a'ch cydweithwyr am eich tystiolaeth.

Hoffwn dynnu eich sylw yn benodol at argymhellion 2 ac 8, sy'n cyfeirio at Gyllid a Thollau EM:

> *Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a CThEM weithio'n agos i sicrhau strategaeth ymgysylltu integredig a chydategol ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru.*
>
> *Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd olrhain effeithiau Cyfraddau Treth Incwm Cymru dros amser ac mae'n argymell y dylai'r prosiect i ddarparu data hydredol fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a CThEM.*

Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor wedi cael ei drefnu, am y tro, ar gyfer dydd Mercher 24 Mawrth. Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb ynghylch yr argymhellion hyn erbyn dydd Mawrth 16 Mawrth.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.